

**WCFD**DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

SWYDD- DDISGRIFIADAU'R GWIRFODDOLWYR

Swydd-ddisgrifiad Gwirfoddolwr y Ganolfan Fwyd Gymunedol (1/2)

Fel rhan o raglen beilot Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, mae canolfannau bwyd cymunedol yn ffordd wych o gysylltu pobl â lle y daw bwyd. Mae'r prosiect yn hwyluso gwirfoddolwyr i gysylltu â chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd i gael mynediad hawdd at fwyd iach a gwerth am arian.

TEITL

Gwirfoddolwr Canolfan Fwyd Gymunedol – Prif Wirfoddolwr

DIBEN

Goruchwylio'r ganolfan fwyd wythnosol a goruchwylio'r tîm

GWEITHGAREDDAU A AWGRYMWYD

Fel prif wirfoddolwr, byddwch chi'n:

- Hwyluso ymholiadau at y ganolfan fwyd
- Goruchwylio'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr a'r rota dreiglol
- Goruchwylio'r broses o farchnata a hyrwyddo'r ganolfan fwyd yn y gymuned
- Cysylltu â'r lleoliad, cyflenwr/cyflenwyr a thîm DBCC
- Trefnu archebion y cwsmeriaid yn unol â GDPR
- Goruchwylio Gwirfoddolwyr Cynorthwyol y Cwsmeriaid

Gallwch chi ofyn i Wirfoddolwyr Cynorthwyol y Cwsmeriaid i ymgymryd â rhai o'r tasgau uchod, fel ymateb i ymholiadau a chysylltu â thîm DBCC.

AMSER

Ar sail rota, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gallu cyfrannu at leiafswm o 3 awr bob mis calendr.

SAFLE/LLEOLIAD

Yn eich Canolfan Fwyd Gymunedol





WCFD

DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

Swydd-ddisgrifiad Gwirfoddolwr y Ganolfan Fwyd Gymunedol (1/2) - Parhau

GORUCHWYLIAETH

Bydd Aelod o Dîm y Ganolfan Fwyd Gymunedol yn eich Goruchwylio.

PRIODWEDDAU

Fel Prif Wirfoddolwr, byddwch chi angen bod yn hyderus i oruchwylio rota'r gwirfoddolwyr ac wrth archebu. Bydd holl wirfoddolwyr y ganolfan Fwyd angen meddu ar sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid a dylen nhw fod yn gwrtais ac yn foneddigaidd bob amser.

BUDDION

Mae llawer o fuddion wrth fod yn wirfoddolwr canolfan fwyd, gan gynnwys:

- Gwirfoddoli yn eich cymuned leol
- Creu cysylltiadau newydd yn y gymuned
- Datblygu sgiliau
- Cyfleoedd Hyfforddi
- Bod yn rhan o brosiect ehangach a rhwydweithio gyda chanolfannau bwyd rhanbarthol

Yn ogystal, rydych yn cael eich darparu â barclodiau a chrysau-T i'w gwisgo os ydych chi'n dewis ac nid oes unrhyw deithio ynghlwm â'r swydd.

RISGIAU

Gweler y polisiau asesu risg a'r polisiau perthnasol. Gweler tudalen 13 o'r Llawlyfr Cynefino.

